| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **28 Ionawr 2015** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Stuart Andrews, Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro** |
| **Teitl:** | **Caffael Gwasanaethau Adeiladu - Diweddariad** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am gynnydd ar waith dilynol diweddaraf Archwilio Mewnol o Gaffael y Gwasanaethau Adeiladu yn dilyn ei adroddiad cychwynnol ym mis Hydref 2013 ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) Mawrth 2014. Dyma'r ail adroddiad dilynol, gyda'r un blaenorol ym mis Medi 2014.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad dilynol pellach ar gyfer Caffael Gwasanaethau Adeiladu i'w gyflwyno i'r Pwyllgor i roi sicrwydd bod gwelliannau wedi'u gwneud ers yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad dilynol Archwiliad Mewnol.
- Bod y Pwyllgor yn ystyried a oes ganddo ddigon o sicrwydd bod cynnydd digonol yn cael ei wneud ar y cynllun gweithredu i wella'r gwasanaeth.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Cyhoeddodd Archwilio Mewnol adroddiad ar Gaffael y Gwasanaethau Adeiladu ym mis Hydref 2013 a oedd yn rhoi sgôr sicrwydd 'isel', gyda chynllun gweithredu ar gyfer gwella. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod ".. *cryn le i wella. Trwy ddatblygu ymagwedd strategol, mae potensial i wneud caffael gwaith adeiladu yn llawer mwy effeithlon drwy symleiddio prosesau a'u gwneud yn fwy cyson, gyda'r fantais o ddileu dyblygu."*

Soniodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru am waith cynnal a chadw adeiladau ysgolion, gan ddod i'r casgliad *"bod angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau caffael presennol i sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian. Yn ogystal, nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'i reolau gweithdrefn contract presennol."*

Mae'r cynllun gweithredu dilynol yn Atodiad 1 yn cynnwys y 21 o gamau gweithredu gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol a chynlluniau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi ei wneud ers yr adroddiadau dilynol ym mis Medi a mis Rhagfyr 2014, dim ond wyth cam gweithredu sydd wedi eu gweithredu'n llawn. Mae dau arall nawr wedi cael eu cwblhau ac mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar y gweill. Yn benodol, bu cynnydd o ran datblygu strategaeth gaffael ddrafft a bellach bu cynnydd sylweddol ar y swyddogaeth rheoli contractau yn y system e-ffynonellu yn dilyn mwy o ymdrech wrth gasglu data. Efallai y bydd trosglwyddo'r Gwasanaeth Caffael Cydweithredol o Cyllid ac Asedau i Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden yn effeithio ychydig ar rai amserlenni.

**Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.

**5. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**6. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir.

**7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig